Swyddog Gwirfoddol
Holiadur Arddulliau Ymddygiadol

Cyfarwyddyd i Gyfranogwyr

Mae'r cyfarwyddyd hwn yn rhoi gwybodaeth i chi am yr Holiadur Arddulliau Ymddygiadol i Swyddogion Heddlu Gwirfoddol. Mae'n disgrifio pam fod y prawf hwn wedi'i ddefnyddio, beth fydd fformat y prawf a sut allwch ymdrin â'r sesiwn brofi.

Pam y gofynnir i mi wneud prawf?

Defnyddir y prawf hwn ar y cyd â gwybodaeth arall am brofiad a doniau pobl, er mwyn asesu a oes gan rywun y cryfderau, agweddau ac ymddygiadau iawn i fodloni anghenion swydd.

Mae'r prawf hwn wedi'i ddewis oherwydd ei fod yn asesu gallu sydd wedi'i nodi fel yn bwysig ar gyfer llwyddo i gyflawni'r rôl. Mae defnyddio profion yn cynnig nifer o fanteision, gan gynnwys y canlynol:

- Maent yn rhoi dull gwrthrychol o asesu pobl yn seiliedig ar feini prawf perthnasol i swydd
- Maent yn rhoi cyfle i ymgeiswyr ddangos eu cryfderau a'u gallu

Beth yw'r Holiadur Arddulliau Ymddygiadol i Swyddogion Heddlu Gwirfoddol?

Mae'r Holiadur Arddulliau Ymddygiadol i Swyddogion Heddlu Gwirfoddol yn mesur eich ymddygiad arferol a'ch hoffterau yn y gwaith. Diben yr holiadur yw asesu a oes gennych yr ymddygiadau a'r agweddau iawn i fod yn effeithiol yn y rôl. Mae'r holiadur hwn yn eich gwahodd chi i edrych ar nifer o ddatganiadau a dangos pa ddatganiadau rydych yn cytuno neu'n anghytuno'n gyfan gwbl â nhw ar raddfa lithro.

Yn yr holiadur, cewch y datganiadau hyn am eich ymddygiad arferol yn y gwaith mewn blociau o bedwar. Bydd angen i chi ddarllen bob datganiad yn ofalus ac yna penderfynu pa raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno gyda'r datganiad gan ddefnyddio'r raddfa isod.

- Anghytuno'n Gyfan Gwbl
- Anghytuno'n gryf
- Anghytuno braidd
- Naill ffordd neu'r llall
- Cytuno braidd
- Cytuno'n gryf
- Cytuno'n gyfan gwbl

© 2018 PSI Services LLC, All Rights Reserved.

Gan ddibynnu ar eich ymatebion, efallai y gofynnir i chi hefyd osod datganiadau penodol o ran pa mor dda maent yn disgrifio eich ymddygiad arferol yn y gwaith.

Nid oes yna derfyn amser, ond dylai gymryd oddeutu 15 i 20 munud i gwblhau'r holiadur. Nid yw'r prawf angen unrhyw wybodaeth arbenigol i'w gwblhau.

Isod, cewch gwestiwn enghreifftiol sy'n debyg i'r un a ofynnir i chi ei gwblhau pan ydych yn cymryd yr Holiadur Arddulliau Ymddygiadol Swyddog Heddlu Gwirfoddol. Gwnaiff hyn eich cynorthwyo i ddeall fformat y prawf a'r mathau o gwestiynau a ofynnir i chi.

Cwestiwn Enghreifftiol

Ceir datganiadau wedi'u cwblhau isod fel enghraifft. Mae hyn i'ch cynorthwyo i ddeall fformat yr holiadur. Yn yr enghraifft isod, mae'r ymatebwr wedi dangos eu bod yn cytuno'n gryf â Datganiad 1 a 2, anghytuno'n gryf â Datganiad 3 a chytuno braidd gyda Datganiad 4.

	Anghytuno'n Gyfan Gwbl	Anghytuno'n Gryf	Anghytuno Braidd	Naill ffordd neu'r	Cytuno Braidd	Cytuno'n Gryf	Cytuno'n Gyfan Gwbl
Rwy'n sicrhau fy mod yn gwneud pethau i'r safon uchaf	○	○	○	○	○	○	○
Rwy'n glynu'n driw i'm credoau, hyd yn oed pan	○	○	○	○	○	○	○
Dwi ddim yn cadw pethau oddi wrth bobl eraill	○	○	○	○	○	○	○
Dwi ddim yn gadael gorchwylion heb eu darfod	○	○	○	○	○	○	○

Wrth ymateb i'r datganiadau, cofiwch am y pwyntiau canlynol:

- Meddyliwch am bob datganiad a meddwl am y graddau maent yn adlewyrchu eich agweddau a'ch ymddygiadau
- Byddwch mor onest â phosibl a dilynwch eich greddf gychwynnol. Ceisiwch beidio gor-feddwl am eich ymateb gan y gall effeithio ar eich perfformiad yn negyddol
- Mae'r holiadur yn holi am eich hoffter yn y gwaith a dim eich bywyd cymdeithasol. Felly, ceisiwch ateb yng nghyd-destun y gwaith bob amser

© 2018 PSI Services LLC, All Rights Reserved.

Paratoi ar gyfer y Sesiwn Brofi

- Sicrhewch eich bod yn cael noson dda o gwsg cyn i chi gymryd y prawf
- Os ydych fel arfer yn gwisgo sbectolau neu lensys cyswllt, sicrhewch eich bod yn eu gwisgo pan ydych yn cymryd y prawf

Yn ystod y Sesiwn Brofi

- Dilynwch y cyfarwyddiadau ar gyfer y prawf yn ofalus
- Os ydych yn ansicr am unrhyw beth, siaradwch â gweinyddwr y prawf cyn i chi ddechrau
- Ceisiwch beidio cynhyrfu a chanolbwyntio ar gyflawni i'r gorau o'ch gallu.

Pob lwc gyda'r prawf. Gobeithiwn i chi weld defnydd yn y cyfarwyddyd hwn.